Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

Polisi Gwybodaeth

Fersiwn: 6
Dyddiad: Chwefror 2017
Disgwyl Adolygiad: Chwefror 2019

Disgrifiad: Mae'r ddogfen hon yn gosod allan gwmpas CAH, yr ardal ddaearyddol y mae'n ei chynnwys a chynnwys ei adnoddau gwybodaeth. Mae'r polisi hefyd yn disgrifio trefniadau sy'n bodoli ar gyfer rhannu data ac yn nodi manylion cytundebau trwyddedu yr ydym yn tanysgrifio iddynt.

Ffynhonnell: Mae'r ddogfen *Polisi Gwybodaeth CAH GGAT* wedi'i hysgrifennu ar ran Ymddiriedolaeth Elusennol CAH GGAT. Mae'r ddogfen hon wedi'i seilio ar ofynion ac argymhellion o *Historic Environment Records: Benchmarks for Good Practice (2014)* ac *Informing the Future of the Past: Guidelines for Historic Environment Records (Ail Argraffiad, 2015)*. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â *GGAT HER User Handbook* a *GGAT HER Guide and Index to Supporting Reference Collections*.

TABL O'R CYNNWYS

1. Cwmpas a Chynnwys y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol .. **Error! Bookmark not defined.**
1.1. Yr Ardal Ddaearyddol a Gaiff ei Chynnwys ..... **Error! Bookmark not defined.**
1.2. Cwmpas y Wybodaeth ..... **Error! Bookmark not defined.**
1.3. Cynnwys y wybodaeth..... **Error! Bookmark not defined.**
1.3.1. Annigidol a chyfeiriol ..... **Error! Bookmark not defined.**
1.3.2. Cynnwys digidol ..... **Error! Bookmark not defined.**
2. Ffynonellau o Wybodaeth Ychwanegol a Dolenni i Gyrff Eraill 6
3. Rhannu a Chyfnewid Data 7
3.1. Memoranda Cyd-ddealltwriaeth 7
3.2. Cytundebau Trwyddedau ..... **Error! Bookmark not defined.**
4. Hawliau Eiddo Deallusol ..... **Error! Bookmark not defined.**

1. Cwmpas a Chynnwys y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

1.1. Yr Ardal Ddaearyddol

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Morgannwg-Gwent (CAH) yw'r gofrestr swyddogol o safleoedd a digwyddiadau archaeolegol yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r cofnod yn cadw gwybodaeth am dros 29,000 o safleoedd a 5,000 o ddigwyddiadau mewn 12 ardal awdurdod unedol - Blaenau Gwent, Pen-y-bont, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Glyn-nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen a Bro Morgannwg. Mae'r deuddeg awdurdod hyn yn cynnwys ardal yr hen siroedd Gwent, Canolbarth Morgannwg, De Morgannwg a Gorllewin Morgannwg.



1.2. Cwmpas y Wybodaeth

Mae'r CAH yn cynnwys gwrthrych a chyfnod ar gyfer pob safle, heneb, nodwedd ac arteffact hysbys o ddiddordeb archaeolegol a / neu hanesyddol yn dyddio o'r cyfnod cynharaf y gwyddys y bu pobl yn byw yno trwodd i'r 20fed ganrif. Nid yw'n gwahaniaethu rhwng safleoedd ag iddynt nodwedd dirol neu forol ac nid yw'n fwriadol eithrio unrhyw fath o safle na'i gyfnod. Ar hyn o bryd mae'r cofnod yn canolbwyntio ar y tir ond mae'r ardal a gaiff ei chynnwys yn cynnwys y parth rhynglanwol hyd at y marc penllanw ac, felly, mae'n cynnwys mathau o henebion megis drylliadau, dociau, awyrennau sydd wedi syrthio i'r ddaear, darganfyddiadau a thirweddau dan

y dŵr. Mae'r CAH hefyd yn cynnwys cofnod o waith archaeolegol, a adwaenir fel 'Digwyddiadau' yn dyddio o'r 19eg ganrif hyd heddiw.

Mae'r wybodaeth a gedwir yn y CAH Rhanbarthol ar hyn o bryd wedi datblygu dros 40+ o flynyddoedd o ganlyniad i'r sawl prosiect a gynhaliwyd yn yr ardal gan amryfal gyrff gwahanol ac sy'n seiliedig ar thema a lleoliad. Fel y cyfryw, mae'n adnodd deinamig cyson sy'n datblygu ac yn ymestyn gyda phob darn newydd o wybodaeth.

Yn ymarferol, golyga amgylchiadau'r datblygiad ac adnoddau'r Cofnod nad yw'r ardal gyfan yn cael ei chynnwys, yn enwedig felly yng nghyswllt data Digwyddiadau. Mae modd defnyddio 'bylchau' a nodwyd yn y cofnod i dargedu gwaith ymchwil a llywio'r Fframwaith Ymchwil ar gyfer Archaeoleg Cymru (www.archaeoleg.org.uk).

1.3. Cynnwys y Wybodaeth

1.3.1. Annigidol a chyfeiriol

Mae'r CAH yn cynnwys swp sylweddol o wybodaeth papur a gasglwyd o amryfal ffynonellau, yn cynnwys:

- Rhagor o ffeiliau gwybodaeth, yn cynnwys ffurflenni cofnod papur, mapiau gyda nodiadau, brasluniau, gwybodaeth gyfeiriol ategol, dyfyniadau o gyhoeddiadau, erthyglau papurau newydd a chylchgronau, gohebiaeth sy'n ymwneud â Phrif Rifau Cyfeiriol neu Ddigwyddiadau safle
- Cardiau Cofnodi Rhanbarth Archaeolegol Arolwg Ordnans
- Mapiau Arolwg Ordnans 25" i'r filltir, argraffiad 1af, 2il argraffiad, 3ydd argraffiad, argraffiad Dros Dro
- Mapiau ystadau
- Mapiau degwm a rhaniadau
- Mapiau daearegol
- Mapiau Arolwg Ordnans gyda nodiadau yn nodi lleoliad safleoedd a henebion
- Llyfrynnau Cadw o Adeiladau o Ddiddordeb Archaeolegol neu Hanesyddol Arbennig
- Amryfal ddogfennau – taflenni, newyddlenni, dogfennau polisi, nodiadau cyfarwyddyd a gwaith papur arall
- Amryfal fapiau
- Arolygon yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Printiau cyswllt ffotograffig – printiau cyswllt a chatalogau papur o ffilmiau 35mm
- Traethodau hir heb eu cyhoeddi, israddedig ac ôl-raddedig, sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth
- Negatifau ffotograffig – negatifau 35mm
- Sleidiau ffotograffig – yn cynnwys catalogau papur o sleidiau ffotograffig
- Archif Adroddiadau o dros 2,500 o adroddiadau archaeolegol a threftadaeth
- Casgliad fideo
- Printiau a sleidiau ffotograffig a dynnwyd o'r ddaear ac o'r awyr
- Lluniadau'n ymwneud ag archifau prosiect, e.e. cynlluniau safle a lluniadau trychiadau

A fyddech cystal â throi at y ddogfen *GGAT HER Guide and Index to Supporting Reference Collections* am gyfrif manylach.

1.3.2. Cynnwys digidol

Catalogau a data-basau digidol, yn cynnwys:

- Y cofnod CAH craidd – yr holl safleoedd, henebion, nodweddion a darganfyddiadau hap archaeolegol neu hanesyddol hysbys yn y rhanbarth
- Digwyddiadau archaeolegol i'r rhanbarth (mae swp o wybodaeth yn dal i ddisgwyl cael ei gofnodi i'r data-bas)

- Safleoedd, henebion ac arteffactau archaeolegol neu hanesyddol a gedwir mewn setiau data gan Bartneriaid Safonau Data'r Amgylchedd Hanesyddol: yn cynnwys data'r Cynllun Hynafiaethau Cludadwy, Data gan Cadw, y Comisiwn Brenhinol ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Yr holl wybodaeth y mae gofyn iddi gael ei darparu dan Adran 35 Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016:
    - Adeiladau Rhestredig
    - Henebion Rhestredig
    - Ardaloedd Cadwraeth
    - Parciau a Gerddi Cofrestredig
    - Safleoedd Gwrthdaro
    - Tirluniau Hanesyddol
    - Safleoedd Treftadaeth y Byd
    - Safleoedd a Lleoedd yr ystyrir eu bod o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol lleol
    - Gwybodaeth am gymeriad hanesyddol
    - Ymchwiliadau (Digwyddiadau)
    - Enwau lleoedd hanesyddol
- Pob llyfr, erthygl cyfnodolyn a gwahanlith a gedwir yn Llyfrgell GGAT
- Catalog o archifau adroddiadau papur
- Amryfal gatalogau mapiau
- Catalog ffotograffig o ddeunydd ffotograffig digidol ac annigidol
- Catalog amlgyfryngol
- Dyddiadau o'r 14eg ganrif i Gymru a ddarparwyd gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Gwybodaeth Ddigidol

- Ffotograffau storio CDs/DVDs
- Archif adroddiadau digidol yn cynnwys copïau pdf o rai o'r adroddiadau a gedwir yn yr archif adroddiadau papur
- Deunydd amlgyfryngol arall megis canlyniadau arolygon digidol, heb eu catalogio hyd yn hyn

Haenau GIS (mapio digidol), yn cynnwys:

- Ffiniau Gweinyddol
- Ardaloedd Archaeolegol Sensitif
- Ardaloedd Cadwraeth Amgylchedd Hanesyddol
- Setiau Data Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ardaloedd Cymeriad y Tirlun Hanesyddol
- Parciau a Gerddi Cofrestredig Hanesyddol
- Aneddiadau Hanesyddol
- Ardaloedd LANDMAP
- Ardaloedd Parciau Cenedlaethol
- Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Plwyfi Hanesyddol
- Adeiladau rhestredig Cadw, lleoliad Adeiladau Rhestredig yn y rhanbarth
- Polygonau Henebion Rhestredig Cadw , lleoliad Henebion Rhestredig yn y rhanbarth
- CAH GGAT, lleoliadau'r holl safleoedd, henebion, nodweddion a darganfyddiadau hap hysbys yn y rhanbarth
- Cofnod Digwyddiadau CAH, amlinelliadau o ardaloedd lle gwnaed gwaith archaeolegol yn y rhanbarth (gwaith yn dal i ddisgwyl cael ei gofnodi)
- Archif Adroddiadau CAH, **lleoliad y ?** archaeolegol y manylir amdano yn yr adroddiad (i'w ddisodli gan Gofnod Digwyddiadau CAH)
- Nodweddion Llinellog CAH, yn cynnwys llwybrau hysbys/tebygol ffyrdd Rhufeinig yn y rhanbarth, camlesi, rheilffyrdd, ffyrdd a thraciau a chloddiau eraill
- Hynafiaethau Cludadwy 4fig, lleoliad cyfeirnod grid pedwar ffigwr o ddarganfyddiadau o ddata-bas yr Hynafiaethau Cludadwy

- Darganfyddiadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, a ddarparwyd fel rhan o set ddata Safonau Data'r Amgylchedd Hanesyddol
- Cofnod Henebion Cenedlaethol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, safleoedd a ddarparwyd fel rhan o set ddata Safonau Data'r Amgylchedd Hanesyddol
- Mastermap a data rhastr Arolwg Ordnans
- Mapiau Arolwg Ordnans cynnar Landmark

A fyddech cystal â throi at *GGAT HER User Handbook am restr hwy.*

2. Ffynonellau o Wybodaeth a Dolenni Ychwanegol i Gyrff Eraill

Mae llyfrgell GGAT yn cadw llyfrau sy'n berthnasol i archaeoleg a hanes lleol de-ddwyrain Cymru yn ogystal â nifer o gyfnodolion cenedlaethol a lleol. Cedwir a chynhelir catalog llawn gan yr Ymddiriedolaeth ac mae'n cynnwys y teitlau a ganlyn:

- Antiquity
- Archaeologia Cambrensis
- Archaeology in the Severn Estuary
- Britannia
- Brycheiniog
- Bulletin of the Board of Celtic Studies
- Cardiff Naturalists Society
- CBA Archaeology in Wales
- Gwent Local History Journal
- Industrial Archaeology Review
- Medieval Archaeology
- Monmouthshire Antiquary
- Morgannwg
- Post Medieval Archaeology
- Proceedings of the Prehistoric Society
- The Archaeological Journal

Isod ceir rhestr o'r sefydliadau, cofnodion a'r wybodaeth leol a chenedlaethol berthynol:

Swyddfa Cofnodion Morgannwg
Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg
Swyddfa Cofnodion Gwent
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Cyngor Archaeoleg Brydeinig (Archaeoleg DU ar lein)
Archifau Cymru
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Coflein (Cofnodion Henebion Cenedlaethol Cymru)
Cadw
Cynllun Hynafiaethau Cludadwy
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Sefydliad yr Archaeolegwyr
Cyngor Archaeoleg Brydeinig (prif safle)
Rescue: The British Archaeological Trust
Cestyll Cymru
Archaeoleg Ar lein
Archaeoleg Brydeinig
Current Archaeology
Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol (ALGAO)
Cymru Hanesyddol

Heritage Gateway
HEIRNET
Informing the Future of the Past
Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Parc Cenedlaethol Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Fframwaith Ymchwil ar gyfer Archaeoleg Cymru
Gwasanaeth Data Archaeoleg
Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cymru
Pixaerial – Cymru o'r Awyr
Fforwm Safonau Gwybodaeth mewn Treftadaeth
Parks and Gardens UK
Cyfnodolion Cymru Ar Lein
Cynefin – mapiau degwm ar lein
Cymru 1900 Wales
Gwefan Enwau Lleoedd – i ddilyn
Gwefan Safleoedd Brwydro – i ddilyn
Cofnod Treftadaeth yr Eglwys yng Nghymru
Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
Informing the Future of the Past – canllawiau ar strwythur a chynnwys CAH
Cyfarwyddyd Statudol ar ddefnyddio CAH – i ddilyn
Cof Cymru

3. Rhannu a Chyfnewid Data

3.1. Memoranda Cyd-ddealltwriaeth

Grŵp Cydlynu Cofnodion a Gweithgor Safonau Data'r Amgylchedd Hanesyddol
Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a sefydliadau sy'n bartneriaid - pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru, Cadw, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol er mwyn cyfnewid data a chynyddu mynediad cyhoeddus at wybodaeth archaeolegol ar draws Cymru. Ar hyn o bryd caiff gwybodaeth ei chyfnewid bob chwarter trwy uwchlwythiad ftp rhannu data diogel. Mae pob sefydliad yn darparu data craidd ac mae hefyd yn cyfrannu at setiau data sydd ar gael ar Borth Cymru Hanesyddol.

Awdurdodau Unedol
Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng GGAT a deuddeg Awdurdod Unedol de-ddwyrain Cymru, yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth. Bellach mae gan rai Awdurdodau Unedol fynediad uniongyrchol at y system CAH ac maent yn derbyn rhannau o setiau data trwy lawrlwythiad ar alw, y rhain yw: Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Sir Fynwy. Ar gyfer gweddill yr awdurdodau, bob chwarter anfonir data CAH craidd ar gyfer yr Awdurdod Unedol Unigol trwy e-bost ar ffurf a amlinellwyd gan yr Awdurdod Unedol.

3.2. Cytundebau Trwyddedu

Mae'r cytundebau trwyddedu tymor hir a ganlyn yn eu lle ar hyn o bryd:

- Telerau ac Amodau Archifau Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd: Maent yn caniatáu defnyddio Data-bas y Cynllun Hynafiaethau Cludadwy
- Glastir – cytundeb trwyddedu gydag Adain Taliadau Gwledig, Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio data CAH ar gyfer cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir

- Arolwg Daearegol Prydain - trwydded ar gyfer defnyddio data CAH i lywio gwaith mapio daearegol

Efallai bod trwyddedau eraill, y tu allan i delerau ac amodau arferol data CAH, rhwng CAH a Phrifysgolion, prosiectau Cronfa Treftadaeth y Loteri, contractwyr archaeolegol neu grwpiau lleol a chymunedol.

4. Hawliau Eiddo Deallusol

Lle caiff Hawliau Eiddo Deallusol eu breinio mewn un neu fwy o unigolion caiff y rhain eu parchu. Ni fydd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent neu Ymddiriedolaeth Elusennol CAH GGAT yn hawlio unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol pan fydd â'r hawl i wneud hynny.

Ceidw hawlfraint ar yr holl ddata o'r CAH. Rhaid i'r holl waith a ddaw yn sgil defnyddio'r data gydnabod ffynhonnell yr hawlfraint. Bydd disgwyl i ddefnyddwyr y CAH lynu wrth yr holl gyfyngiadau hawlfraint a chyfreithiol eraill a allai fod yn berthnasol i wybodaeth a gedwir yn y cofnod. Gallai cofnodion ategol gynnwys deunydd y cedwir yr hawlfraint gan sefydliadau eraill.

Mae modd gweld yr holl drwyddedau sy'n ymwneud â Hawliau Deallusol yn Nata-bas Rheolwyr Hawliau'r Ymddiriedolaeth. Yno ceir manylion trwyddedau a roddwyd a chaniatâd a gafwyd i ddefnyddio data yn yr Ymddiriedolaethau a chan bartïon allanol. Trowch at y ddogfen Polisi a Phrotocolau Clirio Hawliau a'r data-bas cysylltiedig am ragor o wybodaeth.